



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

RHAGLEN ADOLYGU MARWOLAETHAU PLANT

Adroddiad Blynyddol

Mehefin 2013



Awduron

Dr Ciarán Humphries, Ymgynghorydd
Iechyd Cyhoeddus/Cudd-wybodaeth Iechyd

Dr Lorna Price, Meddyg Penodedig, Y
Gwasanaeth Diogelu Plant

Beverley Heatman, Rheolwr y Rhaglen
Adolygu Marwolaethau Plant

Manylion cyhoeddi

Teitl: Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Adolygu
Marwolaethau Plant

Cyhoeddwr: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd
Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: Gorffennaf 2013

ISBN: 978-0-9572759-4-2

I gael Rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r
Tîm Adolygu Marwolaethau Plant, Canolfan
Oldway, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 1af,
36 Stryd y Berllan, Abertawe SA1 5AQ

Ffôn: 01792 607524/607411

E-bost: ChildDeath.Review@wales.nhs.uk

Gwefan: <http://www.iechydcyhoedduscymru.org/adolygiadofarwolaethauplant>

Diolchiadau

Diolch i'r nifer o glinigwyr, byrddau
lleol ar gyfer diogelu plant ac eraill sydd
wedi cynorthwyo â'r broses adolygu
marwolaethau plant: Rhian Hughes, Lloyd
Evans, Bethan Patterson, Gareth Davies a
Nathan Lester o Dîm Dadansoddi Arsyllfa
Iechyd Cyhoeddus Cymru am ddadansoddi
data'r Swyddfa ystadegau Gwladol; Gillian
Hopkins am gymorth gyda data'r adolygiad
o farwolaethau plant; Dr Sarah Jones a'r rhai
sy'n cynorthwyo gyda'r adolygiad thematig
o farwolaeth plant a phobl ifanc mewn
cerbydau modur.

Diolch hefyd i dîm y Cynllun Peilot
Cenedlaethol ar gyfer Adolygu
Marwolaethau Plant, yn enwedig yr Athro
Emeritws J Sibert OBE am osod y sylfeini
ar gyfer y rhaglen hon ac arwain paneli
thematig y prosiect peilot.

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2013

Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw ar yr amod y
gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhagair



Mae marwolaeth pob plentyn yn drasiedi. Mae effaith colli plentyn yn faich trwm ar deuluoedd, gofalwyr a ffrindiau ac mae'n cael effaith sylweddol ar fywydau'r rhai sydd wedi dioddef y brofedigaeth. Fel arfer, mae pedwar plentyn yn marw bob wythnos yng Nghymru a phrin fu'r newid yn y gyfradd marwolaethau plant dros y degawd diwethaf. Croesawaf y gwaith hwn sy'n adeiladu ar y cynllun peilot a'r gwerthusiad ohono. Dylai gynorthwyo gweithwyr proffesiynol a sefydliadau i ddeall patrymau ac achosion marwolaethau plant yng Nghymru.

Mae gormod o blant a phobl ifanc yn marw o achosion y gellir eu hatal. Mae llawer y gellir ei wneud, ac sydd angen ei wneud, i gynorthwyo a diogelu plant rhag y marwolaethau cynamserol hyn. Yn yr adolygiadau thematig a luniwyd gan y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant tynnir sylw at ffactorau y gellir eu haddasu sy'n cyfrannu at y marwolaethau hyn. Mae angen rhoi'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn ar waith.

Fel Comisiynydd Plant Cymru, croesawaf yr adroddiad blynyddol hwn ar farwolaethau plant yng Nghymru. Mae'n bleser gennyf fod yn gysylltiedig â gwaith y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant ac rwy'n teimlo bod y gwaith y mae'n ei wneud yn hanfodol i ddiogelu ein plant yn y dyfodol. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddylanwadu ar ein hymdrechion i sicrhau hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru

ERTHYGL 6

- "1. Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod bod gan bob plentyn yr hawl gynhenid i fywyd.*
- "2. Bydd Partïon Gwladwriaethau yn sicrhau hyd yr eithaf oroesiad a datblygiad y plentyn."*

ERTHYGL 24 (DETHOLIAD)

"Bydd Partïon Gwladwriaethau...yn cymryd camau priodol: i leihau marwolaethau babanod a phlant"

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

"O ddechrau mis Mai 2014, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion Rhan I o'r Confensiwn"

MESUR HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC (CYMRU) 2011



Cynnwys

1	Crynodeb	9		
2	Cyflwyniad	5		
3	Y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant	8		
3.1	Nodau ac Amcanion y Rhaglen	8	5.2.2	Archwiliad o farwolaeth annisgwyl sydyn yn ystod babandod lle roedd gorwedd dros y baban neu gyd-gysgu'n ffactorau 22
3.2	Cwmpas y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant	8	5.2.3	Archwiliad ac adolygiad o farwolaethau plant oherwydd asthma yng Nghymru 23
3.3	Ffyrdd o weithio	9	5.2.4	Adolygiad o farwolaethau plant ar feiciau cwad neu feiciau modur bach (mini-motos) yn y Deyrnas Unedig 23
3.4	Y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant	9	5.2.5	Adolygiad o farwolaethau plant oherwydd drylliau ym Mhrydain Fawr 24
3.5	Gwerthuso'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant	10		
3.6	Datblygu'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant	11	6	Cyfeiriadau 25
4	Marwolaethau plant yng Nghymru	12	Atodiad A	
4.1	Marwolaethau plant a gofrestrir yng Nghymru	12		Argymhellion y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant 26
4.1.1	Patrwm o farwolaethau plant yng Nghymru	12	Atodiad B	
4.1.2	Marwolaethau yn ôl achos	16		Aelodaeth o Grŵp Llywio'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant 28
4.2	Cronfa ddata'r rhaglen adolygu marwolaethau plant	19	Atodiad C	
5	Adolygiadau thematig	20		Llinellau atebolrwydd 29
5.1	Marwolaethau plant yn eu harddegau mewn cerbydau modur 2006-2010	20	Atodiad Ch	
5.2	Adolygiadau thematig peilot	21		Ffurflen Hysbysu Am Farwolaeth Plentyn 30
5.2.1	Pobl ifanc sy'n lladd eu hunain	21	Atodiad D	
				Tablau a chofrestriadau marwolaethau plant, Cymru 32



Tablau a ffigurau

Tabl 1 Marwolaethau plant yn ôl grŵp oedran, Cymru , 2002-2011	12	Ffigur 1 Marwolaethau plant o bob achos yn ôl pumed o amddifadedd, cyfradd fesul 100,000 o unigolion dan 18 oed a chymarebau cyfradd, Cymru, 2006-2010	13
Tabl 2 Marwolaethau plant, niferoedd a chyfraddau fesul 100,000 o bobl* o dan 20 oed, Cymru a Lloegr, 2009-2011	13	Ffigur 2 Marwolaethau plant, canran yn ôl grŵp oedran, byrddau iechyd Cymru, 2007-11	14
Tabl 3 Marwolaethau plant yn ôl achos, niferoedd a chyfartaledd blynyddol, unigolion dan 18 oed, Cymru, 2002-11	16	Ffigur 3 Y duedd o ran marwolaethau plant, cyfradd dreigl dros dair blynedd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, yn ôl grŵp oedran, Cymru, 1996-2011	14
Tabl 4 Achosion eraill o farwolaeth plant, Cymru, 2002-2011	16	Ffigur 4 Y tueddiadau o ran marwolaethau plant, cyfradd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, byrddau iechyd Cymru, 1996-2011	15
Tabl 5 Marwolaethau plant yn ôl achos allanol, fesul grŵp oedran, Cymru, 2002-2011	17	Ffigur 5 Tuedd o ran marwolaethau yn ôl achos, cyfradd dreigl tair blynedd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, Cymru, 2002-2011	18
		Ffigur 6 Marwolaethau plant, canran yn ôl achos, byrddau iechyd Cymru, 2002-2011	18
		Ffigur 7 Hysbysiadau i'r gronfa ddata marwolaethau plant yn ôl ffynhonnell yr hysbysiad cyntaf, marwolaethau Hydref 2009-Mawrth 2013	19



Crynodeb

Y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn dilyn gweithredu a gwerthuso'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant yng Nghymru. Nod y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yw nodi a disgrifio patrymau ac achosion marwolaethau plant, gan gynnwys unrhyw dueddiadau, ac argymhell camau gweithredu i leihau'r risg bod ffactorau y gellir eu hosgoi yn cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru.

Mae'r rhaglen yn cynnwys marwolaeth yr holl blant a anwyd yn fyw a ddigwyddodd ar ôl 1 Hydref 2009 a chyn pen-blwydd y plentyn yn 18 oed, lle mae'r plentyn naill ai'n preswyllo yng Nghymru fel arfer neu'n marw yng Nghymru. Elfen allweddol o'r rhaglen yw cynnal adolygiadau thematig i nodi gwersi a themâu cyffredin o farwolaethau plant yng Nghymru.

Mae'r rhaglen yn parhau â gwaith y Prosiect Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant. Dechreuodd y cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2009, o dan arweiniad yr Athro Emeritws J Sibert OBE. Cyflwynodd y cynllun peilot ei adroddiad i Lywodraeth Cymru ym

mis Hydref 2010. Mewn gwerthusiad annibynnol cymeradwywyd gwerth y broses adolygu marwolaethau plant. Mae argymhellion y gwerthusiad yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith.

Marwolaethau plant yng Nghymru

Yn ystod 2011, cofrestrwyd marwolaethau 222 o blant yng Nghymru. Mae cyfradd marwolaethau plant yng Nghymru wedi aros yn ddigwyfnewid ar y cyfan dros y degawd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o farwolaethau (61%) yn digwydd ymysg plant o dan flwydd oed; mae ychydig dros hanner y marwolaethau eraill (20%) yn digwydd ymysg plant rhwng 12 a 17 mlwydd oed. Er bod cyfraddau marwolaeth plant yng Nghymru a Lloegr debyg i raddau helaeth, mae gan Gymru gyfradd uwch o farwolaethau ymhlith plant hŷn (27 a 33 fesul 100,000 o blith y rhai 15-19 oed yn y drefn honno) yng Nghymru a Lloegr.

Ceir cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a marwolaeth plant. Mae plant sy'n byw yn y rhannau o Gymru sydd â'r amddifadedd mwyaf bron ddwywaith yn fwy tebygol (cymhareb gyfradd 1.9) o farw mewn blwyddyn benodol na'r rhai sy'n byw yn y rhannau sydd â'r amddifadedd lleiaf.

Mae achosion marwolaeth yn ystod babandod yn ymwneud yn bennaf â chyflyrau amenedigol penodol (58%) ac anomaledau cynhenid (16%) gyda 13% yn digwydd oherwydd syndrom marwolaeth sydyn babanod, neu achos marwolaeth arall sy'n anhysbys. Mae achosion allanol ac achosion eraill (meddygol a llawfeddygol) yn amlwg ymhlith y grwpiau oedran hŷn; gyda'i gilydd mae'r rhai yn cyfrif am 92% o farwolaethau ymysg y rhai 5-17 oed.

Adolygiadau thematig

Rhoddir crynodeb o adolygiadau thematig yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys:

Yr adolygiad a gynhaliwyd yn ystod 2013 fel rhan o'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant:

- Adolygiad o farwolaethau plant yn eu harddegau mewn cerbydau modur 2006-2010

Adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant rhwng 2009 a 2011:

- Pobl ifanc sy'n lladd eu hunain: archwiliad o hunanladdiad a digwyddiadau o fwriad amhendiant ymhlith pobl ifanc
- Archwiliad o farwolaeth annisgwyl sydyn yn ystod babandod lle roedd gorwedd dros y baban neu gyd-gysgu'n ffactorau
- Archwiliad ac adolygiad o farwolaethau plant oherwydd asthma yng Nghymru
- Adolygiad o farwolaethau plant ar feiciau cwad neu feiciau modur bach (mini-motos) yn y Deyrnas Unedig
- Adolygiad o farwolaethau plant oherwydd drylliau ym Mhrydain Fawr



Cyflwyniad

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn dilyn gweithredu a gwerthuso'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant yng Nghymru.

Dangosir yr ymrwymiad yng Nghymru i wella cyfleoedd bywyd i blant drwy basio *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*, a'r cynllun hawliau plant a ddaeth yn ei sgil. Mae'r mesur hwn yn rhoi dyletswydd ar weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011).

Cyflwynwyd dulliau systematig o adolygu marwolaethau plant ar draws rhannau helaeth o'r byd gorllewinol, gan gynnwys bron bob talaith yn America a hefyd yng Nghanada, Awstralia a Seland Newydd (y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol, 2011).

Yn Lloegr, gyda'r rheoliadau a gyflwynwyd o dan *Ddeddf Plant 2004* fe'i gwnaed yn ofynnol i Fyrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant sefydlu proses i adolygu'r holl farwolaethau plant o 1 Ebrill 2008. Diben y broses yw archwilio a oes ffactorau cyffredin sy'n gysylltiedig ag achosion penodol o farwolaethau plant y gellir, ar ôl eu nodi, mynd i'r afael â hwy drwy fentrau lleol (y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol, 2011).

Nid oes sail statudol gyfatebol ar gyfer cynnal adolygiadau o farwolaethau plant yng Nghymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru beilot o'r broses adolygu marwolaethau plant yng Nghymru. Mae gwaith y cynllun peilot hwn wedi bod yn sail i sefydlu'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant.



Y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

3.1 Nodau ac Amcanion y Rhaglen

Nod y rhaglen yw nodi a disgrifio patrymau ac achosion marwolaethau plant, gan gynnwys unrhyw dueddiadau, ac argymhell camau gweithredu i leihau'r risg o ffactorau y gellir eu hosgoi sy'n cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru.

Mae **amcanion** y rhaglen fel a ganlyn:

- Canfod a choladu data ar farwolaethau plant yng Nghymru a marwolaethau plant sy'n preswyllo yng Nghymru fel arfer.
- Cynnal adolygiadau thematig a gwneud argymhellion.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n:
 - Disgrifio'r canfyddiadau o ran patrymau marwolaethau plant yng Nghymru.
 - Yn amlygu lle mae ffactorau y gellir eu hosgoi y credwyd eu bod yn cyfrannu at farwolaethau plant wedi'u nodi mewn adolygiadau thematig.
- Lledaenu canfyddiadau'r adroddiad blynyddol a'r adolygiadau thematig er mwyn llywio camau i fynd i'r afael â ffactorau y gellir eu hosgoi sy'n cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru.

3.2 Cwmpas y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

Mae'r rhaglen yn cwmpasu marwolaeth yr holl blant a anwyd yn fyw a ddigwyddodd ar ôl 1 Hydref 2009 a chyn pen-blwydd y plentyn yn 18 oed, lle mae'r plentyn yn preswyllo yng Nghymru fel arfer neu'n marw yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys plant sydd o dan ofal yr awdurdod lleol ac sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru; neu'r rhai a all fod yn preswyllo dros dro y tu allan i Gymru at ddibenion gofal iechyd neu addysg.

Diben yr adolygiadau thematig o farwolaethau plant yw nodi ffactorau y gellir eu haddasu sy'n cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru ac i wneud argymhellion. Mae gwneud datganiadau ar achos neu amgylchiadau marwolaethau unrhyw blentyn unigol fel arfer y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad. Mae gan adolygiadau o achosion difrifol, adolygiadau o ymarfer plant a chwestau swyddogaethau penodol o hyd mewn perthynas â marwolaethau plant unigol.

3.3 Ffyrdd o weithio

Mae cyflwyno rhaglen adolygu marwolaeth plant yn fenter amlddisgyblaethol. Wrth wraidd hyn mae ymdrech i ddeall ac addasu ffactorau y gellir eu haddasu sy'n cyfrannu at farwolaethau plant yng Nghymru. I gyflawni hyn mae angen dull agored ac ymholgar o ymdrin â'r ffactorau sy'n arwain at farwolaeth plant. Nid yw'r adolygiadau'n ceisio beio unigolion neu asiantaethau. Yn hytrach, eu nod yw dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Bydd y rhaglen yn cyhoeddi ei hargymhellion ei hun; cyfrifoldeb lechyd Cyhoeddus Cymru yw'r hyn a gynhwysir yn yr adroddiadau a'r argymhellion hyn ac lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am eu cyhoeddi hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael adroddiadau ac argymhellion thematig chwe wythnos cyn eu cyhoeddi i alluogi'r Llywodraeth i ymateb adeg eu rhyddhau.

3.4 Y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant

Ym mis Mai 2008, cytunodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y dylid comisiynu Gwasanaeth lechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (y mae ei swyddogaethau a'i wasanaethau bellach wedi'u hymgorffori yn lechyd Cyhoeddus Cymru) i sefydlu astudiaeth beilot i fod yn sail i ddatblygu adolygiadau o farwolaethau plant yng Nghymru. Dechreuodd y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant ym mis Gorffennaf 2009, o dan arweiniad yr Athro Emeritws J Sibert OBE.

Nod y cynllun peilot dwy flynedd oedd casglu, dadansoddi ac adolygu gwybodaeth am farwolaethau plant yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi ffactorau y gellir eu hatal.

Amcanion y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant (y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol, 2011)

Amcanion cychwynnol:

- Creu system i ganfod yr holl farwolaethau plant (0 i <18 oed) o 1af Hydref 2009. Roedd hyn yn cynnwys marwolaethau disgwylidig ac annisgwyl (na chawsant eu rhag-weld o fewn y 24 awr cyn y farwolaeth a gofnodwyd) ond nid oedd yn cynnwys marw-enedigaethau a therfyniadau.
- Sefydlu adolygiadau cenedlaethol o farwolaethau, gan ganolbwyntio i ddechrau ar achosion o hunanladdiad a hunanladdiad tybiedig er 1 Hydref 2006.
- Profi dichonoldeb sefydlu adolygiadau lleol/trafodaethau am achosion ac integreiddio cwblhau gofynion gwybodaeth i brosesau presennol.

Amcanion ychwanegol a nodwyd ar gyfer y cynllun peilot:

- Diffinio model adolygu marwolaethau plant ar gyfer Cymru a all lywio'r broses o ddrafftio rheoliadau a chanllawiau statudol.
- Datblygu prosesau a mesurau i sicrhau y gellir mabwysiadu'r model arfaethedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cyflwyno'r rheoliadau a'r canllawiau statudol.
- Nodi manteision disgwylidig y broses adolygu marwolaethau plant a sut y gellir ei defnyddio i gynorthwyo'r rhaglen ddiogelu ehangach yng Nghymru.

Gweithiodd y cynllun peilot gyda rhanddeiliaid ledled Cymru, gan sefydlu prosesau a dogfennaeth gan gynnwys prosesau llywodraethu gwybodaeth, deunydd cyfathrebu a deunydd i'r wefan, a datblygu taflen wybodaeth i rieni. Datblygwyd cronfa ddata marwolaethau benodedig i Gymru a chofnodwyd gwybodaeth a gafwyd drwy amrywiol ffynonellau am farwolaethau plant. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i gynorthwyo o ran nodi themâu penodol i'w hadolygu (adran 5.2).

Cyflwynodd y cynllun peilot ei ganfyddiadau ar ffurf adroddiad drafft i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2010. Daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- **Arwain y ffordd:** yng Nghymru roedd yn briodol cael arweinydd cenedlaethol ar gyfer y broses adolygu marwolaethau plant.
- **Sail statudol:** cafodd y broses ei llesteirio gan y gofyniad i sicrhau caniatâd. Byddai gwneud yr adolygiad plant yn statudol yng Nghymru yn hanfodol er mwyn datblygu'r rhaglen genedlaethol ar gyfer adolygu marwolaethau plant.
- **Canfod gwybodaeth:** Mae ffynonellau niferus yn hanfodol ar gyfer canfod gwybodaeth a chael adroddiadau uniongyrchol gan gofrestryddion, yn hytrach na thrwy fyrdau lleol ar gyfer diogelu plant; mae'n bwysig gwella cysylltiadau â chrwneriaid.
- **Adolygiad cenedlaethol o farwolaethau plant:** mae'r paneli wedi gweithio'n dda ac mae manteision y dull newydd yn golygu y dylai barhau.
- **Adroddiad blynyddol ar farwolaethau plant:** i barhau ac i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol,

y Comisiynydd Plant a'r cyhoedd drwy'r cyfryngau.

- **Ymateb gweithdrefnol i farwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod** (PRUDiC) i'w integreiddio i brosesau marwolaethau plant.

Arweiniodd hyn at nifer o argymhellion penodol yn ymwneud â pharhad adolygiadau o farwolaethau plant yng Nghymru (Atodiad A). Cafodd yr adroddiad, gan gynnwys ei gasgliadau a'i argymhellion, eu hystyried ynghyd â thystiolaeth arall fel rhan o werthusiad annibynnol (gweler adran 3.5).

3.5 Gwerthuso'r Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Cordis Bright i gynnal gwerthusiad o'r cynllun peilot ar gyfer adolygu marwolaethau plant (Cordis Bright Ltd, 2012). Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2011 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012. Roedd yn seiliedig yn bennaf ar 18 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a 49 o gyfweiliadau dros y ffôn â rhanddeiliaid, yn ogystal ag adolygiad o ddogfennaeth berthnasol y prosiect (Cordis Bright Cyf, 2012).

Nododd y gwerthusiad fod y Prosiect Peilot ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant yn cael ei weld fel proses werthfawr iawn gan yr holl randdeiliaid y cyfwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Nododd gryfderau'r broses yn ogystal â meysydd penodol y gellid gwella arnynt. Gwnaeth argymhellion yn seiliedig ar farn werthusol Cordis Bright:

Argymhelliad 1: Ystyried parhau i ariannu'r broses adolygu marwolaethau plant.

Argymhelliad 2: Datblygu cylch gorchwyl clir a chytuno arno.

Argymhelliad 3: Rhoi trefniadau llywodraethu priodol ar waith.

Argymhelliad 4: Diwygio arferion gweithredol y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant.

Argymhelliad 5: Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi pwerau statudol i'r broses adolygu marwolaethau plant.

Ceir rhagor o fanylion am bob un o'r rhain yn yr adroddiad (Cordis Bright Cyf, 2012).

3.6 Datblygu'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

Mae'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant bellach yn cael ei sefydlu i Gymru.

Mewn perthynas ag argymhellion y gwerthusiad, gwnaethpwyd y cynnydd canlynol:

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid ar gyfer y rhaglen tan fis Mawrth 2014.
2. Mae'r rhaglen wedi datblygu cylch gorchwyl a chytunwyd ar hwnnw â Llywodraeth Cymru.
3. Mae'r rhaglen yn datblygu trefniadau llywodraethu clir; mae hyn yn cynnwys grŵp llywio (Atodiad B) a llinellau atebolrwydd (Atodiad C).
4. Mae elfennau allweddol o arferion gweithredol wedi'u hadolygu; gan gynnwys datblygu ffurflen newydd (Atodiad Ch). Mae datblygiadau eraill ar y gweill.

5. Mae trafodaethau cychwynnol ar bwerau statudol mewn perthynas â'r Adolygiad o Farwolaethau Plant wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal mae'r rhaglen yn:

- Datblygu cyfres o adolygiadau thematig, gan ddechrau gyda marwolaethau plant mewn cerbydau modur.
- Adolygu'r gronfa ddata marwolaethau plant i sicrhau ei bod yn addas at y diben.
- Ailsefydlu cydberthnasau â'r rhanddeiliaid yng Nghymru.
- Trefnu digwyddiadau rhanddeiliaid i rannu canfyddiadau'r adolygiadau thematig a'r adroddiad blynyddol, annog rhannu gwybodaeth â'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant a hwyluso adborth rhwng rhanddeiliaid a'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant.



Marwolaethau plant yng Nghymru

4.1 Marwolaethau plant a gofrestrir yng Nghymru

Mae'r trosolwg hwn o farwolaethau plant yng Nghymru yn deillio o ddata cofrestredig swyddogol yn y Detholiad o Farwolaethau Ardal Blynyddol (ADDE), a gyflenwir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r marwolaethau'n ymwneud â phlant sy'n preswyllo yng Nghymru fel arfer, ac fe'u cyflwynir yn ôl blwyddyn gofrestru. Cyfrifir y cyfraddau drwy ddefnyddio amcangyfrifon swyddogol canol blwyddyn (MYE). Cyflwynir y data mwyaf diweddar sydd ar gael, sef 2011.

Oni nodir fel arall, cyflwynir data yn ôl grŵp oedran fel <1 mlwydd oed (babanod), 1-4 oed (oedran cyn ysgol); 5-11 (oedran ysgol gynradd) a 12-17 (oedran ysgol uwchradd). Mewn llawer o achosion caiff y data eu cyfuno ar draws tair blynedd neu fwy yn sgil y nifer cymharol fach o ddigwyddiadau mewn unrhyw flwyddyn unigol. Ar gyfer nifer o ddadansoddiadau, lle mae niferoedd llai dan sylw, caiff y data eu cyfuno ar draws y 10 mlynedd diwethaf (2002-2011). Disgrifir achosion marwolaeth yn unol â bloc 10 pennod Dosbarthiad Rhyngwladol Clefydau (ICD), gyda dadansoddiad penodol ar gyfer achosion allanol a syndrom marwolaeth sydyn babanod (Sefydliad Iechyd y Byd, 2013).

Nid yw'r dadansoddiad hwn yn rhoi manylion am farwolaethau plant o dan un flwydd oed. Mae adroddiad blynyddol Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan (Paranjothy, et al., 2013) yn rhoi manylion y marwolaethau hyn.

Ategir y data hyn gan dablau manylach yn Atodiad D.

4.1.1 Patrwm o farwolaethau plant yng Nghymru

Yn ystod 2011 cofrestrwyd 222 o farwolaethau plant yng Nghymru (Atodiad D). Dyma'r nifer leiaf o farwolaethau plant a gofrestrwyd yn ystod y deng mlynedd rhwng 2002 a 2011 (ystod: 222 i 293; cymedr: 246). Fodd bynnag, ar y cyfan mae'r gyfradd marwolaethau ar gyfer plant yng Nghymru yn 2011 yn debyg i'r hyn ydoedd ddeng mlynedd cyn hynny.

Mae'r rhan fwyaf o farwolaethau (61%) ymhlith y rhai o dan flwydd oed, gydag 20% yn digwydd ymhlith plant rhwng 12 a 17 mlwydd oed, a'r 19% sy'n weddill ymhlith plant rhwng 1 oed ac 11 oed (Tabl 1).


Tabl 1 Marwolaethau plant yn ôl grŵp oedran, Cymru, 2002-2011

Oed	Nifer blynyddol	Cyfran y marwolaethau plant	Cyfradd fesul 100,000	Cyfyngau hyder o 95%
<1	149.1	61%	444.7	(422.4 to 467.9)
1-4	24.0	10%	18.1	(15.9 to 20.5)
5-11	23.2	9%	9.5	(8.3 to 10.8)
12-17	49.3	20%	21.2	(19.4 to 23.2)

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS).

Mae cysylltiad cryf rhwng marwolaethau plant ac amddifadedd. Mae plant sy'n byw yn y rhannau o Gymru sydd â'r amddifadedd mwyaf bron ddwywaith yn fwy tebygol o farw mewn blwyddyn benodol â'r rhai sy'n byw yn y rhannau â'r amddifadedd lleiaf (cymhareb gyfradd 1.9, Ffigur 1).

Ffigur 1 Marwolaethau plant o bob achos yn ôl amddifadedd, cyfradd fesul 100,000 o unigolion dan 18 oed a chymarebau cyfradd*, Cymru, 2006-2010



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS), MALIC 2008 (LIC). *Cymarebau cyfradd o gymharu â'r pumed â'r amddifadedd lleiaf

O gymharu â Lloegr, mae'r cyfraddau wedi'u cynhyrchu yn ôl band oedran pum mlynedd a <1, yn unol â ffynonellau data cyhoeddus (Tabl 2). Roedd y gyfradd marwolaethau plant yng Nghymru yn ystod 2009-2011 (421 fesul 100,000) yn is nag yn Lloegr (455 fesul 100,000); fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd y gyfradd marwolaethau ymhlith y rhai 15-19 oed yn uwch yng Nghymru (33 fesul 100,000) nag yn Lloegr (27 fesul 100,000) ac roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Tabl 2 Marwolaethau plant, niferoedd a chyfraddau fesul 100,000 o bobl* o dan 20 oed, Cymru a Lloegr, 2009-2011

	Lloegr		Cymru	
	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (CH 95%)	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (CH 95%)
<1	3,052	454.6 (445.4 i 464.0)	150	421.3 (383.3 i 462.2)
1-4	479	18.4 (17.5 i 19.4)	20	14.3 (10.9 i 18.4)
5-9	263	8.9 (8.3 i 9.6)	14	8.6 (6.2 i 11.6)
10-14	304	9.8 (9.2 i 10.4)	21	11.9 (9.1 i 15.2)
15-19	890	26.6 (25.6 i 27.7)	66	33.2 (28.7 i 38.1)

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE, cyfres DR a MYE (ONS)

Mae'r holl gyfraddau'n seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth wedi'u talgrynnu sydd wedi'u diweddaru yn ôl cyfrifiad 2011, nes bod data heb ei dalgrynnu ar gyfer Lloegr ar gael.


Lle ceir nifer fach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

Mae cyfran y marwolaethau sy'n digwydd ar oeddrannau gwahanol yn dangos patrwm sy'n debyg ar y cyfan ym mhob bwrdd iechyd (Ffigur 2). Dylid darllen hyn ar y cyd â'r cyfraddau penodol i oedran a'u cyfyngau hyder ar gyfer yr ardaloedd fel yr amlinellir yn Atodiad D. Er enghraifft, mae'r gyfran uwch o farwolaethau plant sy'n digwydd ymhlith y rhai 12-17 oed yn Hywel Dda yn gysylltiedig â chyfradd uwch yn y grŵp oedran hwn a hefyd y gyfradd is ymhlith babanod; nid yw'r un

o'r cyfraddau hyn yn ystadegol wahanol i gyfartaledd Cymru.


Dengys y duedd dros y pymtheng mlynedd diwethaf ostyngiad yn y gyfradd marwolaethau ymysg y rhai o dan flwydd oed yn ystod rhan gyntaf y cyfnod hwn. Dengys y duedd o ran cyfraddau marwolaeth y rhai rhwng blwydd a phedair oed ostyngiad; fodd bynnag, mae'r gyfradd hon yn seiliedig ar nifer cymharol fach o achosion bob blwyddyn. Nid yw'r patrwm mor gyson yn y grwpiau oedran eraill (Ffigur 3).

Ffigur 2 Marwolaethau plant, canran yn ôl grŵp oedran, byrddau iechyd Cymru, 2007-11



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE (ONS). Lle ceir nifer fach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canrannau. Ni fydd cyfanswm y canrannau'n 100 bob tro oherwydd talgrynnu.

Ffigur 3 Y duedd o ran marwolaethau plant, cyfradd dreigl dros dair blynedd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, yn ôl grŵp oedran, Cymru, 1996-2011




Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). *Mae graddfa echein - y yn wahanol i blant <1 oed o gymharu â'r grwpiau oedran eraill. Lle ceir nifer bach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

Mae'r duedd dros y pymtheng mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad yn y gyfradd marwolaethau rhwng y rhai o dan flwydd oed yn ystod rhan gynnar y cyfnod hwn. Mae'r duedd o ran cyfraddau marwolaeth ymhlith y

rhai rhwng blwydd a phedair oed yn gostwng; fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar nifer fach iawn o achosion bob blwyddyn. Mae patrwm llai cyson yn y grwpiau oedran eraill (Ffigur 4).

Ffigur 4 Y tueddiadau o ran marwolaethau plant, cyfradd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, byrddau iechyd Cymru, 1996-2011



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). Lle ceir nifer bach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

4.1.2 Marwolaethau yn ôl achos

Roedd dros un rhan o dair o farwolaethau plant (36%, 88 y flwyddyn) yn deillio o gyflyrau penodol yn y cyfnod amenedigol; roedd anomaledau cynhenid yn cyfrif am 13% (32 y flwyddyn), achosion allanol yn cyfrif am 15% (38 y flwyddyn) ac achos anhysbys, gan gynnwys syndrom marwolaeth sydyn babanod (SIDS), yn cyfrif am 9% (23). Mae'r 27% sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf â chyflyrau meddygol a llawfeddygol amrywiol (Tabl 3).

Yn ystod babandod, achosir y marwolaethau hyn yn bennaf gan gyflyrau amenedigol (58%) ac anomaledau cynhenid (16%), gydag

13% yn deillio o SIDS, neu achos marwolaeth arall sy'n anhysbys.

Ar ôl babandod, y prif achosion marwolaeth oedd rhesymau eraill (cyflyrau meddygol a llawfeddygol yn bennaf) ac achosion allanol. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cyfrif am 92% o farwolaethau yn y grwpiau oedran 5-11 a 12-17 oed. Yn y grŵp oedran 12-17 oed roedd dros hanner y marwolaethau (53%, 26 y flwyddyn) yn deillio o achosion allanol.

Roedd achosion eraill (66 o farwolaethau y flwyddyn) yn ymwneud â chyflyrau meddygol/llawfeddygol amrywiol gan gynnwys afiechydon y system nerfol a neoplasmau (Tabl 4).

Tabl 3 Marwolaethau plant yn ôl achos, niferoedd a chyfartaledd blynyddol, unigolion dan 18 oed, Cymru, 2002-11

	<1		1-4		5-11		12-17		Cyfanswm dan 18 oed	
	Nifer	Cyfartaledd blynyddol	Nifer	Cyfartaledd blynyddol	Nifer	Cyfartaledd blynyddol	Nifer	Cyfartaledd blynyddol	Nifer	Cyfartaledd blynyddol
Amenedigol (P00-P96)	869	86.9	5	0.5	1	0.1	1	0.1	876	87.6
Anomlaedd cynhenid (Q00-Q99)	241	24.1	38	3.8	15	1.5	23	2.3	317	31.7
Allanol (V01-Y98, U509)*	22	2.2	43	4.3	50	5.0	260	26.0	375	37.5
Achosion anhysbys a heb eu diffinio o farwolaethau (R95-R99)										
SIDS (R95)	73	7.3	4	0.4	0	0.0	0	0.0	77	7.7
Arall (R96-R99)	122	12.2	14	1.4	3	0.3	14	1.4	153	15.3
Arall (pob cod arall)	164	16.4	136	13.6	163	16.3	195	19.5	658	65.8
Pob achos	1491	149.1	240	24.0	232	23.2	493	49.3	2456	245.6

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE (ONS). *Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006

Tabl 4 Achosion eraill o farwolaeth plant, Cymru, 2002-2011

	Nifer blynyddol cyfartalog	Cyfran o farwolaethau eraill
Clefydau'r system nerfol (G00-G99)	15.1	23%
Neoplasmau (C00-D48)	15.0	23%
Clefydau'r system resbiradol (J00-J99)	8.2	12%
Clefydau heintus a pharasitig penodol (A00-B99)	8.1	12%
Clefydau'r system gylchredol (I00-199)	6.9	10%
Clefydau endocrin, maethol a metabolig (E00-E90)	4.6	7%
Achosion eraill	7.9	12%
Cyfanswm	65.8	100%

Roedd dros ddwy ran o dair (69%) o farwolaethau plant yn deillio o achosion allanol ymhlith y rhai 12-17 oed (Tabl 5). Roedd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn cyfrif am 39% o'r holl achosion allanol o farwolaethau ymysg plant. Mae marwolaethau ymysg plant 12-17 oed sy'n deithiwr mewn ceir yn cyfrif am 43% o farwolaethau plant yn sgil gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, ac mae marwolaethau plant 12-17 oed fel cerddwyr yn cyfrif am 17% arall o farwolaethau plant yn sgil traffig ar y ffyrdd.

Fel arfer, roedd hunan-niweidio bwriadol yn gyfrifol am bedair marwolaeth y flwyddyn. Yn ogystal, (a) byddai marwolaethau ymhlith y rhai 15 oed neu'n hŷn ac sy'n cael eu dosbarthu fel digwyddiadau o fwriad amhendant yn cael eu hystyried ymhlith ystadegau hunanladdiad a (b) gall rhai o'r rheiny a ddosbarthwyd fel rhai damweiniol (yn enwedig crogi a thagu) fod yn farwolaethau oherwydd hunanladdiad (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013). Roedd ymosodiad yn cyfrif am 3.7 o farwolaethau y flwyddyn ar gyfartaledd (Tabl 5).

Tabl 5 Marwolaethau plant yn ôl achos allanol, fesul grŵp oedran, Cymru, 2002-2011


	<1	1-4	5-11	12-17	Cyfanswm o dan 18 oed
Damwain Drafnidiaeth					
Cerddwr (V01-V09)	0	3	12	25	40
Beiciwr pedal (V10-V19)	0	0	2	4	6
Beic modur (V20-V29)	0	0	1	8	9
Teithiwr mewn car ac amhenodol (V40-V49*)	2	3	4	41	50
Gyrrwr car (V40-V49*)	0	1	1	22	24
Arall ac amhenodol (V50-V99)	0	0	5	13	18
Cwmpadau (W00-W19)	1	3	0	4	8
Dod i gysylltiad â grymoedd mecanyddol difwyd (W20-W49)	0	5	1	6	12
Dod i gysylltiad â grymoedd mecanyddol byw (W50-W64)	1	1	0	0	2
Boddi a suddo damweiniol (W65-W74)	1	4	3	10	18
Bygythiadau damweiniol eraill i anadlu					
Crogi a Thagu (W75-W76)	1	1	1	16	19
Arall (W77-W84)	5	2	1	3	11
Dod i gysylltiad â mwg, tân a fflamau (X00-X09)	0	5	4	3	12
Dod i gysylltiad â grymoedd byd natur (X30-X39)	0	0	0	1	1
Gwenwyno damweiniol gan sylweddau gwenwynig ac amlygiad iddynt (X40-X49)	0	0	1	8	9
Amlygiad damweiniol i ffactorau eraill ac amhenodol (X58-X59)	1	1	2	2	6
Hunan-niweidio bwriadol					
Crogi a thagu (X70)	0	0	0	31	31
Arall (X60-X69, X71-X84)	0	0	0	10	10
Ymosodiad (X85-Y09, Y339, U509)**	5	11	10	33	59
Digwyddiad o fwriad amhendant					
Crogi a Thagu (Y20)	0	0	1	13	14
Arall (Y10-Y19, Y21-Y34 ac eithrio Y339)	3	1	0	6	10
Cymhlethdodau gofal meddygol a llawfeddygol (Y40-Y84)	2	2	1	1	6
Pob achos allanol (V01 - Y98, U509)**	22	43	50	260	375

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE (ONS). * 4ydd digid ar gyfer ICD-10 = 0 neu 5 ar gyfer gyrrwr car, 1-4 a 6-9 ar gyfer teithiwr mewn car ac amhenodol. ** Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006

Mae'r tueddiadau dros y degawd diwethaf yn dangos mai prin fu'r newid yn y rhan fwyaf o achosion marwolaeth, ond maent yn awgrymu gostyngiad bach yn y cyflyrau amrywiol eraill, rhai meddygol a llawfeddygol yn bennaf (Ffigur 5).


Mae patrymau achos marwolaeth yn ôl ardal yn debyg yn fras ar draws y byrddau iechyd (Ffigur 6). Dylid dehongli cyfran y marwolaethau yn ôl achos ar y cyd â'r cyfraddau marwolaeth yn ôl achos ym mhob ardal ac yn ôl y cyfyngau hyder perthnasol (Atodiad D).

Ffigur 5 Tuedd o ran marwolaethau yn ôl achos, cyfradd dreigl tair blynedd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, Cymru, 2002-2011



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). SIDS: Syndrom marwolaeth sydyn babanod.
*Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006.

Ffigur 6 Marwolaethau plant, canran yn ôl achos, byrddau iechyd Cymru, 2002-2011



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE (ONS). Lle ceir nifer bach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth dehongli'r canrannau ac ni fydd eu cyfanswm yn 100 bob tro oherwydd talgrynnu. SIDS: Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod *Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006.

4.2 Cronfa ddata'r rhaglen adolygu marwolaethau plant

Ategir y Rhaglen Adolygu


Marwolaethau Plant gan gronfa ddata marwolaethau plant. Mae hon yn seiliedig ar nifer o ffynonellau hysbysu i alluogi adrodd ar achosion yn amserol ac yn gyflawn. Mae'r gronfa ddata'n cael ei hadolygu fel rhan o ailsefydlu'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant.

Er mis Awst 2011, mae'r gronfa ddata wedi cael adroddiadau uniongyrchol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ffigur 7). Mae hyn wedi golygu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion ar y gronfa ddata a gyflwynir yn gyntaf drwy hysbysiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn wedi cyd-

daro ag adeg pan oedd y rhaglen mewn cyfnod o drawsnewid; ar ôl y cynllun peilot ond cyn ailsefydlu rhaglen a'r tîm Adolygu Marwolaethau Plant.

Mae oedi sylweddol yn aml rhwng hysbysiadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amser y farwolaeth; lle y ceir cwest, mae hyn fel arfer yn cymryd misoedd lawer, a gall gymryd blyneddau. Yn nata'r misoedd diweddaraf, mae gwybodaeth am farwolaethau wedi bod bron yn gyfan gwbl oherwydd hysbysiadau gan ffynonellau heblaw am y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae penodi swyddog gwybodaeth wedi cynorthwyo'r broses o wella prydlondeb data yn ystod y cyfnod diweddar hwn, gweler Ffigur 7.

Ffigur 7 Hysbysiadau i'r gronfa ddata marwolaethau plant yn ôl ffynhonnell yr hysbysiad cyntaf, marwolaethau Hydref 2009-Mawrth 2013



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Marwolaethau Plant, Cymru; detholiad data 24.4.2013.



5 Adolygiadau thematig

5.1 Marwolaethau plant yn eu harddegau mewn cerbydau modur 2006-2010

Ar ddechrau 2013, cynhaliodd y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant adolygiad o farwolaethau plant yn eu harddegau mewn cerbydau modur rhwng 2006 a 2010. Roedd hyn yn golygu adolygu 28 o wrthdrawiadau, a arweiniodd at 90 o anafusion a 45 o farwolaethau, gyda 34 o'r marwolaethau hynny ymysg pobl ifanc yn eu harddegau rhwng 13 a 17 oed (Jones, Heatman a Humphreys, 2013)¹.

Yn seiliedig ar y data, adolygiad o dystiolaeth ac arbenigedd y panel, daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:²

- Roedd colli rheolaeth yn ffactor allweddol mewn llawer o'r gwrthdrawiadau hyn (cofnodwyd y ffactor hwn mewn 13 o blith 28 o adroddiadau ar wrthdrawiadau). Mae hyn yn debygol o ymwneud â diffyg profiad gyrru, a chyflymder amhriodol.
- Roedd peidio â gwisgo gwregys diogelwch yn ffactor addasadwy ym marwolaethau'r plant a'r bobl ifanc hyn. Nid oedd o leiaf 16 o'r bobl ifanc 13 i 17 oed a fu farw yn gwisgo gwregysau diogelwch. Roedd hyn yn

ffactor penodol gyda theithwyr sedd gefn.

- O blith y cerbydau lle y cafwyd marwolaethau, roedd y gyrrwr dros y terfyn cyfreithiol o ran alcohol yn y gwaed mewn pump o blith 22 o achosion, gan wneud y defnydd o alcohol gan y gyrrwr yn ffactor addasadwy.
- Digwyddodd tua hanner (22) o bob un o'r 45 o farwolaethau, a 13 o blith 34 o farwolaethau ymysg pobl ifanc yn eu harddegau, mewn cerbydau lle y cafwyd pump neu chwech o anafusion.
- Roedd gyrru yn y nos yn ffactor allweddol yn y marwolaethau hyn; digwyddodd 19 o blith 28 o wrthdrawiadau rhwng 21:00 a 05:00.
- Dim ond mewn 3 o blith 22 o gerbydau y gwelwyd tystiolaeth o ddiffygion.

Gwnaed deg argymhelliad gan y panel adolygu'n ymwneud â:

- Gweithio mewn partneriaeth.
- Ymyriad Llywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau i drwyddedu gyrrwyr ifanc.

¹ Mae'r adolygiad llawn ar gael yn <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/44351>. ² Mae'r enwaduron a roddir yn ymwneud â lle roedd gwybodaeth ar gael.

- Datblygu dull i adolygu marwolaethau'n gysylltiedig â gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn rheolaidd.
- Cymorth i barhau i weithredu ymateb gweithdrefnol i farwolaeth annisgwyl yn ystod plentyndod.
- Cydnabod gwerth gorfodi'r gyfraith gan Unedau Plismona Ffyrdd a chefnogaeth i hyn.
- Adolygu data a gasglwyd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd i amlygu'r risgiau i bobl ifanc.
- Rhagor o ymchwili i ymyriadau posibl.
- Gwelliannau i brosesau rhannu gwybodaeth a'r angen i greu deddfwriaeth i alluogi'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant i gael gafael ar wybodaeth yn haws.
- Ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn ochr yn ochr â gwerthusiad Pass Plus Cymru.

5.2 Adolygiadau thematig peilot

Rhwng 2009 a 2011, cynhaliodd y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant nifer o adolygiadau thematig fel rhan o'r cynllun peilot gan gynnwys:

- Pobl ifanc sy'n lladd eu hunain: archwiliad o hunanladdiad a digwyddiadau o fwriad amhendiant ymhlith pobl ifanc
- Archwiliad o farwolaeth annisgwyl sydyn yn ystod babandod lle roedd gorwedd dros y baban neu gyd-gysgu'n ffactorau
- Archwiliad ac adolygiad o farwolaethau plant oherwydd asthma yng Nghymru

- Adolygiad o farwolaethau plant ar feiciau cwad neu feiciau modur bach (mini-motos) yn y Deyrnas Unedig
- Adolygiad o farwolaethau plant oherwydd drylliau ym Mhrydain Fawr

Ni chafodd yr adolygiadau eu cyhoeddi'n ffurfiol; fodd bynnag, er mwyn rhannu'r gwersi o'r adolygiadau hyn, rhoddir crynodeb o bob un ohonynt isod.

5.2.1 Pobl ifanc sy'n lladd eu hunain

Nododd yr adolygiad fod gan lawer o'r bobl ifanc hyn sawl ffactor yn gyffredin. Nododd y panel fod un neu ragor o'r ffactorau canlynol yn bresennol ym mwyafrif yr achosion, sef:

- Amddifadedd cymdeithasol
- Hunan-niweidio
- Hanes personol o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso
- Defnyddio cyffuriau ac alcohol
- Bwlio
- Cysylltiadau cymdeithasol â dioddefwyr hunanladdiad eraill

Daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- Dylid ymchwilio'n llawn i ddigwyddiadau lle mae plant a phobl ifanc yn marw naill ai o hunanladdiad neu o fwriad amhendiant a dysgu gwersi o'r farwolaeth.
- Mae angen gwasanaeth cydgysylltiedig ar bobl ifanc sydd wedi ceisio lladd eu hunain. Maent yn haeddu trafodaeth amlddisgyblaethol ac aml-asiantaeth. Byddai datblygu dull brysbenneu, gan ddefnyddio'r ffactorau risg a amlinellir uchod, yn ychwanegiad gwerthfawr at reolaeth glinigol.

- Gall hunanladdiad ymhlith pobl ifanc ddeillio o'r ffaith iddynt gael eu cam-drin; yn enwedig cam-drin rhywiol a cham-drin emosiynol. Rhaid ystyried bod hunanladdiad yn ffactor o bwys o ran asesu risg pobl ifanc sydd wedi'u cam-drin.
- Mae bwllo'n cael ei gydnabod fel un o achosion poen meddwl ymysg plant a phobl ifanc. Gall gweithredu polisïau gwrth-fwllo cadarn yn yr ysgol a chydymffurfio â hwy atal bwllo. Mae angen i fwlio gael ei gydnabod fel rhan o'r asesiad risg ar gyfer hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc, yn enwedig os oes unrhyw rai o'r ffactorau eraill o bryder a restrir uchod yn bresennol.
- Gall hunan-niweidio ragflaenu hunanladdiad, yn enwedig ymysg merched a menywod ifanc. Mae angen i hunan-niweidio gael ei gydnabod fel rhan o'r asesiad risg ar gyfer hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc, yn enwedig os oes unrhyw rai o'r ffactorau eraill o bryder a restrir uchod yn bresennol.
- Roedd nifer y dynion ifanc sy'n lladd eu hunain naill ai heb unrhyw nodweddion ysgogol amlwg neu ar ôl yr hyn y gellid ei ystyried fel anghytundeb dibwys yn destun pryder. Maent yn fwy tebygol o ddefnyddio dull treisgar o hunanladdiad megis crogi. Mae rhoi ystyriaeth ofalus i gynnal ymgyrch iechyd cyhoeddus er mwyn atal hyn.

Gofynnodd yr adolygiad nifer o gwestiynau a gododd o'r gwaith. Cafodd y cwestiynau hyn, ynghyd â chanfyddiadau'r panel, eu trafod mewn gweithdy aml-asiantaeth, amlsector ym mis Mawrth 2011. Cyflwynwyd adroddiad y gweithdy i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2011 i'w ystyried.

Yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a Grŵp Llywio'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant, mae'r rhaglen yn bwriadu ailystyried y thema hon ar gyfer yr adolygiad nesaf.

5.2.2 Archwiliad o farwolaeth annisgwyl sydyn yn ystod babandod lle roedd gorwedd dros y baban neu gyd-gysgu'n ffactorau

Ar ôl ystyried llenyddiaeth gyhoeddedig, cymeradwyodd y panel y cyngor canlynol gan Lywodraeth Cymru:

"Peidiwch byth â chysgu gyda'ch babi ar sofffa neu gadair freichiau. Yn ystod y chwe mis cyntaf, y man mwyaf diogel i'ch babi gysgu yw mewn crud yn yr un ystafell â chi.

Mae'n arbennig o beryglus i'ch babi gysgu yn eich gwely chi os ydych chi (neu eich partner):

- *yn ysmygwyr, hyd yn oed os na fyddwch byth yn smygu yn y gwely neu gartref*
- *wedi yfed alcohol yn ddiweddar*
- *wedi cymryd moddion neu gyffuriau sy'n gwneud i chi gysgu'n drymach*
- *yn flinedig iawn*
- *neu os ganed eich babi cyn 37 wythnos neu os oedd yn pwysu llai na 2.5kg (5½ pwys) pan gafodd ei eni."*

Daeth y panel i'r casgliad bod:

- Y dystiolaeth ymchwil yn pwysleisio peryglon cyd-gysgu, yn enwedig pan mae'n gysylltiedig â smygu, defnydd diweddar o alcohol neu gyffuriau gan y rhieni neu pan fydd y babi'n iau na thri mis.
- Mae cysgu ar sofffa yn arbennig o beryglus i fabanod, gyda'u gofalwr neu hebdo.

- Dylid cyngkori mamau sy'n bwydo o'r fron i fwydo eu babanod yn y gwely (yn hytrach nag ar sofffa neu gadair freichiau) ac yna rhoi'r babi yn ôl yn y crud ger gwely'r rhiant/rhieni.
- Dylid cynnal ymgyrch iechyd cyhoeddus i annog arferion cysgu diogel. Dylai hyn gynnwys ymgyrch yn y cyfryngau. Dylai hefyd gynnwys ffordd o ddarparu crud i deuluoedd sy'n arbennig o anghenus.
- Dylai ysgolion yng Nghymru baratoi cynllun gofal iechyd i blant ag asthma difrifol.

5.2.3 Archwiliad ac adolygiad o farwolaethau plant oherwydd asthma yng Nghymru

Mae asthma bellach yn gyflwr y gellir ei drin ymysg plant ac felly mae marwolaethau plant oherwydd asthma'n destun pryder.

Adolygodd y panel lenyddiaeth feddygol a chomisynu archwiliad o asthma sy'n bygwth bywyd mewn plant. Gwnaethant yr argymhellion canlynol ar ffurf cynllun gweithredu ar gyfer gofal plant ag asthma yng Nghymru:

- Dylai plant ag asthma sy'n ddigon difrifol iddynt orfod cael gofal pediatregol dwys gael sylw arbennig a bydd angen adolygiad resbiradol arbenigol. Mae gan y cysyniad o Wasanaeth Asthma Anodd rinweddau³.
- Dylai'r clinig gael mynediad i help seicolegydd/seiciatrydd i gynorthwyo â sicrhau cydymffurfiaeth ynghyd â chymorth nyrsio profiadol.
- Dylai plant ag asthma difrifol sy'n ddigon difrifol i fynd i uned gofal dwys neu sy'n mynd i'r uned dibyniaeth uchel yn aml, ffonio 999 pan fyddant yn cael pyliau.
- Dylid sicrhau bod rhieni'n llwyr ymwybodol o beryglon asthma difrifol fel cyflwr angheuol.

5.2.4 Adolygiad o farwolaethau plant ar feiciau cwad neu feiciau modur bach (mini-motos) yn y Deyrnas Unedig

Cerbydau pob tir pedair olwyn (ATV) gyda dolenni llywio sy'n cynnwys y rheolaethau a chyfrwy sy'n debyg i'r rhai ar feiciau modur yw beiciau cwad. Mae injan beic cwad yn amrywio rhwng 50cc a 650cc, yn ôl y model. Nid yw'n anghyfreithlon i blant reidio beiciau cwad at ddibenion hamdden ar dir preifat, ond mae'n anghyfreithlon i blant o dan 13 oed eu defnyddio at ddibenion gwaith. Beiciau modur a sgwteri bach, wedi'u gyrru gan betrol sy'n gallu cyrraedd cyflymder o hyd at 60 milltir yr awr yw mini-motos. Yr unig le y gall plant dan 16 oed reidio mini moto yw ar dir preifat ond rhaid iddynt gael caniatâd y perchennog tir.

Adolygwyd llenyddiaeth ar farwolaethau plant a phobl ifanc o bob rhan o'r DU o ganlyniad i ddamweiniau ar feiciau cwad a beiciau mini-moto. Daethpwyd i'r casgliad bod nifer y plant sy'n marw oherwydd hyn yn amlwg yn destun pryder. Nodwyd ymchwil o Seland Newydd a ddaeth i'r casgliad hwn:

Gall cerbydau pob tir arwain at farwolaeth a gallant achosi niwed mawr. Mae'n amlwg nad yw'n briodol i blentyn ifanc reidio cerbydau pob tir maint oedolyn yn sgil y risg o anaf difrifol a marwolaeth. Mae angen trafodaeth gyhoeddus i benderfynu ai addysg ynteu deddfwriaeth yw'r ateb.

Mae'r elusen diogelwch ffyrdd Brake yn argymhell:

3 Gweler canllawiau clinigol y BTS/Sign (BTS/SIGN, 2012, p. 83).

- cyfraith i wahardd plant o bob oedran rhag reidio beiciau modur bach neu feiciau gwlad;
- cyfraith sy'n cyfyngu ar y defnydd o feiciau cwad i blant hŷn ar draciau wedi'u hardystio, ac i benderfynu ar isafswm oedran yn dilyn ymgynghori ag asiantaethau diogelwch.

5.2.5 Adolygiad o farwolaethau plant oherwydd drylliau ym Mhrydain Fawr

Adolygodd tîm y cynllun peilot lenyddiaeth a marwolaethau plant a phobl ifanc o ganlyniad i ddigwyddiadau'n ymwneud â drylliau (gan gynnwys damweiniau, hunanladdiad a llofruddiaethau) o bob rhan o Brydain Fawr. Er bod ffigurau'r llywodraeth yn nodi lleihad mewn troseddau a marwolaethau oherwydd drylliau ar draws bob oedran, dangosodd yr adroddiad fod nifer y marwolaethau oherwydd drylliau yn ystod plentyndod yn parhau'n ddigyfnewid ar tua 7 y flwyddyn.

Roedd yn ymddangos bod tri phrif faes sy'n destun pryder lle y gallai fod modd atal marwolaethau:

- Argaeledd gynnu awyr a'r defnydd ohonynt mewn achosion o farwolaethau damweiniol a hunanladdiad.
- Trwyddedu drylliau i bobl ifanc sy'n rhoi mynediad i ddrylliau ar gyfer ymdrechion i gyflawni hunanladdiad.
- Argaeledd gynnu i bobl ifanc, yn arbennig mewn cymunedau Affro-Caribiaidd.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod:

- Cysylltiad cryf rhwng yr achosion o lofruddiaeth yn yr adroddiad hwn â diwylliant gangiau; mae'n hanfodol deall yr isddiwylliant hwn ac ystyried ymyriadau i atal y trais.

- Nid oes angen trwydded ar gyfer gynnu awyr ac mae'r ffaith bod modd i blant fod yn berchen arnynt yn parhau i fod yn ddadleuol. Mae nifer y plant sy'n cael eu lladd yn ddamweiniol gan yr arf hwn yn codi cwestiynau ynghylch a ddylai deddfwriaeth drylliau fod yn llymach.

Ni ddylai plant a phobl ifanc allu cael trwyddedau ar gyfer gynnu pelets.



6 Cyfeiriadau

Cymdeithas Thorasig Prydain a Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban. (2012 argraffiad diwygiedig). British guideline on the management of asthma. BTS/SIGN. Ar gael yn: <<http://www.brit-thoracic.org.uk/Portals/0/Guidelines/AsthmaGuidelines/sign101%20Jan%202012.pdf>> [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Deddf Plant 2004. Pennod 31. [Ar-lein]. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents> [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Cordis Bright Ltd. (2012). Evaluation of the Child Death Review Project in Wales. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120418childdeathen.pdf> [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Jones SJ, Heatman B a Humphreys C. (2013). Adolygiad thematig o farwolaethau plant yn eu harddegau, 13 i 17 oed, mewn cerbydau modur rhwng 2006 a 2010. Abertawe: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2011). Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Caerdydd: CCC. Ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted> [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol. (2011). Adroddiad y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol ar y Cynllun Peilot ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant 2009 - 2011 [Drafft]. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2013). Suicides in the United Kingdom, 2011. Llundain: Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171778_295718.pdf [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Paranjothy S et al. (2013). All Wales Perinatal Survey annual report 2011. Caerdydd: Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn http://medicine.cf.ac.uk/media/filer/2012/10/23/awps_ann_report_2011_web_1.pdf [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Sefydliad Iechyd y Byd. (2013). International classification of diseases (Ar-lein). Ar gael yn: <http://www.who.int/classifications/icd/en/> [Fel ar 13 Mehefin 2013]

Atodiad A

Argymhellion y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u cynnwys yn adroddiad drafft y Cynllun Peilot Cenedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2010.

Argymhelliad 1 - Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo ac yn cefnogi'n ffurfiol ddatblygiad parhaus y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Adolygu Marwolaethau Plant gyda gwybodaeth yn cael ei choladu gan y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol wedi'i drefnu'n ganolog.

Argymhelliad 2 – Dylai'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol gael ei leoli yn lechyd Cyhoeddus Cymru a dylai gynnwys

- Arweinydd Clinigol: (hyd at 0.4 sesiwn cyfwerth ag amser cyflawn) gellid gwneud hyn ar sail ymgynghoriaeth i arwain y broses o goladu gwybodaeth, adolygu'r llenyddiaeth, Cadeirio'r paneli a pharatoi'r adroddiadau.
- Rheolwr y Rhaglen (1.0 cyfwerth ag amser cyflawn) – Byddai'r rôl yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli a'i ddatblygu; ymgysylltu â rhanddeiliaid; cyflwyniadau i amlygu canfyddiadau'r Tîm Adolygu

Marwolaethau Plant Cenedlaethol; Datblygu pecyn hyfforddiant a chyflwyno hyfforddiant; darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r sefydliadau wrth gynnal adolygiadau lleol.

- Swyddog Cymorth (1.0 cyfwerth ag amser cyflawn) – Diben y rôl fyddai cynnal y cymorth ysgrifenyddol i'r panel cenedlaethol; cefnogi'r Rheolwr mewn tasgau gweinyddol, mewnbynnu data i'r gronfa ddata genedlaethol.

- Dolen Diogelu Plant

Argymhelliad 3 – Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru greu deddfwriaeth statudol i alluogi gwybodaeth i gael ei rhannu rhwng asiantaethau mewn perthynas â marwolaeth plentyn, a dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael i'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol i hwyluso'r gwaith o nodi ffactorau y gellir eu hatal i'w alluogi i gyhoeddi argymhellion.

Argymhelliad 4 – Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi parhad ffynonellau data niferus.

Argymhelliad 5 – Dylai hysbysiadau o farwolaethau plant gan Gofrestryddion gael eu darparu'n uniongyrchol i'r

Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol.

Argymhelliad 6 – Dylid parhau â'r gwaith gyda Chrwneriaid i wella'r broses hysbysu a rhannu gwybodaeth gyda'r tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol fel parti sydd â diddordeb.

Argymhelliad 7 – Dylid parhau â'r adolygiad thematig o farwolaethau plant yng Nghymru. Credwn ei fod wedi rhoi ffocws i'n hystyriaethau ac mae wedi ein galluogi i goladu gwybodaeth am achosion ledled Cymru. Mae hefyd wedi ein galluogi i adolygu llenyddiaeth ar achosion penodol o farwolaethau ymysg plant. Credwn fod iddo fanteision gwirioneddol dros adolygiad lleol yn unig, megis y rhai a gynhelir yn Lloegr.

Argymhelliad 8 – Dylai'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol drwy lechyd Cyhoeddus Cymru gyhoeddi adolygiad blynyddol o farwolaethau plant yng Nghymru gan ddechrau yn 2010.

Argymhelliad 9 - Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio cyhoeddi'r ddogfen "PRUDIC" fel y broses gyffredinol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl ymysg plant. I sicrhau bod y PRUDIC yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i:

1. Byrddau Iechyd Lleol sefydlu swydd Ymarferydd PRUDIC gyda chyfrifoldeb dros arwain ym maes iechyd ar y broses adolygu marwolaethau plant erbyn mis Ebrill 2011.

2. Cwnstablïaeth yr Heddlu nodi Swyddog/ion arweiniol gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod y broses PRUDIC yn cael ei gweithredu'n briodol.

Mae'n bwysig bod y PRUDIC yn cael ei gyflwyno a'i weithredu fel strategaeth

sy'n sail i'r Adolygiad o Farwolaethau Plant Cenedlaethol. Byddai'r Tîm Adolygu Marwolaethau Plant Cenedlaethol yn hanfodol i ddatblygu pecyn hyfforddi a darparu hyfforddiant a gweithredu'r PRUDIC ledled Cymru.

Yn ogystal, dylid datblygu rhaglen Hyfforddiant Aml-asiantaethol a rhoi adnoddau iddi a'i chyflwyno i staff rheng flaen a gweithwyr proffesiynol allweddol i ategu gweithredu'r PRUDIC yn llwyddiannus.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i Fyrdau Lleol ar gyfer Diogelu Plant nodi'r unigolyn allweddol sydd â chyfrifoldeb dros y broses adolygu marwolaethau plant.

Y Byrddau Lleol Diogelu Plant yw'r cyrff lleol allweddol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn eu hardal.


Atodiad B

Aelodaeth o Grŵp Llywio'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

Corff	Rôl	Enw
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cadeirydd y Grŵp Llywio a'r cyswllt â Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru Gwasanaeth Diogelu Plant: cyngor ar agweddau ar waith yn ymwneud â diogelu Cyngor ar ddefnyddio data a llywodraethu gwybodaeth Cyngor ar gyfathrebu	Judith Greenacre Rhiannon Beaumont Wood Nathan Lester Anna Humphries
Llywodraeth Cymru	Cyngor ar bolisi iechyd Cyngor ar bolisi gofal cymdeithasol	Heather Payne Stephen Gear
Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant	Safbwynt diogelu lleol	Pauline Galluccio (Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys) Liz Best (Awdurdod Lleol Casnewydd)
Yr Heddlu	Safbwynt yr Heddlu	DCI Shane Williams
Bwrdd Iechyd	Safbwynt y gwasanaeth iechyd	Mandy Rayani (Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro)
Plant yng Nghymru	Safbwynt y sector gwirfoddol / y trydydd sector	Karen McFarlane
Swyddfa'r Comisiynydd Plant	Safbwynt y Comisiynydd Plant	Andrew Wallsgrove
Uned Academaidd	Safbwynt academiaidd ac ymchwil	Shantini Paranjothy
Adolygiad o Farwolaethau Plant yn Lloegr	I'w gadarnhau	
Crwneriaid	Gwahoddiad agored	
Yn bresennol		
Iechyd Cyhoeddus Cymru: y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant	Rheolwr y Rhaglen Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Arweinydd Clinigol Swyddog Gwybodaeth a chymorth gweinyddol	Beverley Heatman Ciarán Humphreys Lorna Price Gillian Hopkins

Atodiad C

Llinellau atebolrwydd



Yn nodi llinell atebolrwydd

Atodiad Ch Ffurflen Hysbysu Am Farwolaeth Plentyn



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Child Death Review Project Wales Child Death Notification Form

A. REPORTING DETAILS: (Your Details)

Date of Completion			Your agency e.g. LSCB, health, police	
Full name & role				
E-mail address			Tel. No	
Your address				

B. CHILD'S DETAILS

Full name of child			
Date of birth		NHS No.	
Address			
Postcode		Sex	Male ☐ Female ☐

C. DETAILS OF THE DEATH

Date of death		Expected ☐	Unexpected* ☐ If unexpected follow PRUDIC
---------------	--	-----------------------------------	---

Cause of death

☐ Neonatal	☐ Accidental Poisoning	☐ Substance Misuse	☐ Known Life Limiting condition
☐ Accidental Drowning	☐ Accident Fire & Burns	☐ Apparent Suicide	☐ Apparent Homicide
☐ other non intentional accident	☐ Medical Death – not known life limiting condition	☐ Sudden Infant Death	
☐ Road Traffic Accident – Pedestrian	☐ Road Traffic Accident – Passenger	☐ Road Traffic Accident – Driver	☐ Road Traffic Accident – Rider

Please provide details relating to the child's death:

D. NEXT STEPS

The completed form is to be sent to the National Child Death Review Team by:

- Email:** A password protected e-mail attachment to ChildDeath.Review@wales.nhs.uk
- Post:** Single envelope marked as follows: National Child Death Review Team, Public Health Wales, 1st Floor Oldway Centre, 36 Orchard Street, Swansea. SA1 5AQ
- Tel:** 01792 607524 or 01792 607411

Atodiad D

Tablau a chofrestriadau marwolaethau plant, Cymru.

Marwolaethau o bob achos, nifer a chyfradd fesul 100,000 obobl o dan 18 oed, Cymru, byrddau lechyd ac awdurdodau lleol 2002-2011

	2002		2003		2004		2005		2006		2007		2008		2009		2010		2011	
	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd	N	Cyfradd (95% CI)
Ynys Môn	9	61.0	6	41.0	4	27.3	5	34.4	6	41.7	14	99.0	7	50.3	8	58.2	9	66.1	7	51.8 (20.8 to 106.7)
Gwynedd	10	39.9	10	40.5	11	45.1	11	45.8	11	46.1	16	67.4	9	38.0	6	25.3	9	37.9	9	38.0 (17.4 to 72.2)
Conwy	8	34.8	8	34.9	11	47.7	8	35.0	13	57.1	10	44.2	11	49.1	14	63.1	5	22.7	12	54.7 (28.3 to 95.5)
Sir Ddinbych	9	43.4	8	38.7	8	39.0	10	49.2	7	34.7	11	54.8	6	30.0	14	70.8	7	35.6	5	25.6 (8.3 to 59.8)
Sir y Fflint	10	29.1	14	41.1	14	41.2	12	35.6	17	51.0	10	30.1	12	36.3	12	36.6	16	49.1	9	27.6 (12.6 to 52.4)
Wrecsam	6	21.0	6	21.2	11	39.0	14	49.7	8	28.3	10	35.3	9	31.6	9	31.5	17	59.4	13	44.7 (23.8 to 76.5)
Powys	9	32.5	9	32.5	12	43.1	6	21.6	13	47.0	15	54.7	6	22.0	6	22.4	5	18.9	5	19.1 (6.2 to 44.5)
Ceredigion	5	35.2	7	50.3	12	87.5	5	36.9	2	14.9	2	15.0	2	15.1	2	15.2	5	38.7	7	54.8 (22.0 to 112.9)
Sir Benfro	12	45.9	8	30.4	13	49.4	9	34.3	10	38.2	9	34.6	6	23.1	9	35.2	9	35.6	7	27.9 (11.2 to 57.5)
Sir Gâr	16	41.8	11	28.6	10	26.0	15	39.2	16	42.2	14	36.8	12	31.5	16	42.4	12	32.0	8	21.3 (9.2 to 41.9)
Abertawe	21	44.2	16	33.9	14	29.8	21	44.9	21	44.9	16	34.2	17	36.3	15	32.0	14	30.0	21	44.9 (27.8 to 68.6)
Castell-nedd Port Talbot	10	33.6	7	23.5	18	60.7	10	33.8	13	44.3	11	37.7	14	48.3	11	38.2	11	38.7	10	35.4 (17.0 to 65.2)
Pen-y-bont ar Ogwr	10	33.7	14	47.0	8	26.9	10	33.6	9	30.3	17	57.2	9	30.4	11	37.6	16	55.2	15	51.9 (29.0 to 85.6)
Bro Morgannwg	14	48.6	14	48.7	19	66.4	7	24.7	8	28.4	13	46.3	13	46.3	5	18.0	9	32.6	3	11.0 (2.3 to 32.2)
Caerdydd	27	38.6	32	46.5	31	45.4	22	32.4	22	32.5	30	44.0	29	42.1	34	48.8	36	51.4	30	42.3 (28.6 to 60.4)
Rhondda Cynon Taf	15	28.0	17	32.0	14	26.6	29	55.6	21	40.7	29	56.8	13	25.6	25	49.5	17	33.9	20	39.9 (24.4 to 61.7)
Merthyr Tudful	3	22.3	6	45.2	3	22.9	1	7.7	5	38.5	5	38.7	6	46.8	9	70.6	3	23.8	5	39.8 (12.9 to 92.9)
Caerffili	12	29.2	9	22.0	20	49.0	12	29.7	19	47.4	22	55.2	18	45.3	16	40.3	14	35.3	10	25.3 (12.1 to 46.5)
Blaenau Gwent	3	18.2	4	24.8	8	50.4	4	25.6	4	25.8	9	58.8	8	53.0	7	47.3	2	13.8	8	55.8 (24.1 to 110.0)
Torfaen	8	37.0	10	46.8	7	33.3	5	23.9	6	28.9	9	43.8	11	54.1	5	24.9	1	5.0	7	35.3 (14.2 to 72.8)
Sir Fynwy	4	20.8	4	20.7	9	45.8	1	5.1	4	20.5	9	46.4	3	15.6	2	10.5	1	5.3	4	21.2 (5.8 to 54.4)
Casnewydd	19	55.3	11	32.3	18	53.4	18	53.8	9	27.0	12	36.2	18	54.1	10	30.2	13	39.2	7	21.1 (8.5 to 43.4)
Betsi Cadwaladr	52	35.5	52	35.8	59	40.8	60	41.8	62	43.4	71	49.9	54	38.1	63	44.8	63	44.9	55	39.2 (29.5 to 51.0)
Powys	9	32.5	9	32.5	12	43.1	6	21.6	13	47.0	15	54.7	6	22.0	6	22.4	5	18.9	5	19.1 (6.2 to 44.5)
Hywel Dda	33	42.0	26	33.0	35	44.6	29	37.2	28	36.1	25	32.3	20	25.9	27	35.3	26	34.4	22	29.1 (18.3 to 44.1)
ABM	41	38.3	37	34.7	40	37.6	41	38.7	43	40.7	44	41.6	40	37.9	37	35.3	41	39.4	46	44.3 (32.4 to 59.1)
Caerdydd a'r Fro	41	41.5	46	47.1	50	51.6	29	30.1	30	31.3	43	44.7	42	43.3	39	40.1	45	46.1	33	33.6 (23.2 to 47.1)
Cwm Taf	18	26.8	23	34.7	17	25.9	30	46.0	26	40.3	34	53.2	19	29.9	34	53.8	20	31.9	25	39.9 (25.8 to 58.9)
Aneurin Bevan	46	34.6	38	28.8	62	47.3	40	30.8	42	32.5	61	47.6	58	45.4	40	31.6	31	24.6	36	28.6 (20.0 to 39.6)
Cymru	240	36.5	231	35.3	275	42.2	235	36.3	244	37.9	293	45.7	239	37.3	246	38.7	231	36.5	222	35.1 (30.6 to 40.0)

Paratowyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). N= nifer y marwolaethauCyfradd = cyfradd fras fesul 100,000 o bobl. Lle ceir nifer fach o ddigwyddiadau, dyllid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

Marwolaethau o bob achos, nifer a chyfradd flynyddol gyfartalog fesul 100,000 o bobl o dan 18 oed, Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, 2002-2011

	<1 oed		1-4 oed		5-11 oed		12-17 oed	
	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (95% CI)	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (95% CI)	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (95% CI)	Cyfartaledd blynyddol	Cyfradd (95% CI)
Ynys Môn	3.9	536.9 (381.8 i 733.9)	1.2	41.8 (21.6 i 73.0)	0.6	11.2 (4.1 i 24.4)	1.8	34.4 (20.4 i 54.4)
Gwynedd	5.7	452.3 (342.6 i 586.0)	1.3	25.2 (13.4 i 43.0)	1.2	12.8 (6.6 i 22.3)	2.0	24.3 (14.8 i 37.5)
Conwy	6.0	546.0 (416.7 i 702.8)	1.0	22.7 (10.9 i 41.7)	0.7	8.2 (3.3 i 17.0)	2.3	26.9 (17.0 i 40.3)
Sir Ddinbych	4.8	472.8 (348.6 i 626.8)	0.9	22.3 (10.2 i 42.4)	1.0	13.2 (6.3 i 24.2)	1.8	24.0 (14.2 i 37.9)
Sir y Fflint	7.9	459.4 (363.7 i 572.5)	1.6	23.2 (13.2 i 37.6)	1.6	12.6 (7.2 i 20.5)	1.5	12.4 (7.0 i 20.5)
Wrecsam	6.2	386.9 (296.6 i 496.0)	0.9	14.4 (6.6 i 27.3)	1.5	13.9 (7.8 i 22.9)	1.7	17.4 (10.1 i 27.8)
Powys	5.0	400.7 (297.4 i 528.3)	1.0	19.2 (9.2 i 35.4)	0.8	7.6 (3.3 i 15.0)	1.8	17.5 (10.3 i 27.6)
Ceredigion	2.4	378.0 (242.2 i 562.5)	0.3	11.5 (2.4 i 33.7)	0.5	9.6 (3.1 i 22.5)	1.7	34.1 (19.9 i 54.6)
Sir Benfro	5.8	468.3 (355.6 i 605.3)	0.8	15.6 (6.8 i 30.8)	0.4	4.0 (1.1 i 10.3)	2.2	23.0 (14.4 i 34.8)
Sir Gâr	6.3	334.0 (256.7 i 427.4)	1.8	23.5 (13.9 i 37.1)	1.2	8.3 (4.3 i 14.4)	3.7	26.5 (18.7 i 36.5)
Abertawe	10.1	398.7 (324.7 i 484.5)	2.5	25.1 (16.3 i 37.1)	1.7	9.5 (5.5 i 15.2)	3.3	20.0 (13.8 i 28.1)
Castell-nedd Port Talbot	6.5	436.6 (336.9 i 556.4)	1.3	22.0 (11.7 i 37.6)	1.2	10.9 (5.6 i 19.0)	2.5	23.3 (15.1 i 34.4)
Pen-y-bont ar Ogwr	6.8	443.5 (344.4 i 562.3)	0.9	14.8 (6.8 i 28.1)	0.4	3.6 (1.0 i 9.1)	3.8	35.7 (25.2 i 48.9)
Bro Morgannwg	6.8	500.1 (388.4 i 634.0)	0.4	7.1 (1.9 i 18.3)	1.0	9.3 (4.4 i 17.0)	2.3	22.1 (14.0 i 33.2)
Caerdydd	20.2	490.6 (425.3 i 563.2)	2.7	17.7 (11.7 i 25.8)	2.7	10.3 (6.8 i 15.1)	3.7	15.7 (11.1 i 21.6)
Rhondda Cynon Taf	12.5	447.2 (372.3 i 533.0)	1.4	12.9 (7.0 i 21.6)	2.1	10.7 (6.6 i 16.4)	4.0	21.8 (15.6 i 29.7)
Merthyr Tudful	3.2	469.4 (321.1 i 662.7)	0.4	15.2 (4.1 i 38.8)	0.2	4.1 (0.5 i 14.9)	0.8	16.7 (7.2 i 32.8)
Caerffili	8.9	419.0 (336.5 i 515.6)	1.7	20.1 (11.7 i 32.2)	1.5	9.8 (5.5 i 16.2)	3.1	21.7 (14.7 i 30.8)
Blaenau Gwent	3.6	474.1 (332.0 i 656.3)	0.4	13.3 (3.6 i 34.1)	0.6	10.5 (3.8 i 22.8)	1.1	18.7 (9.4 i 33.5)
Torfaen	4.9	471.6 (348.9 i 623.4)	0.4	9.8 (2.7 i 25.0)	0.5	6.4 (2.1 i 14.9)	1.1	14.3 (7.1 i 25.6)
Sir Fynwy	2.7	310.9 (204.9 i 452.3)	0.2	5.5 (0.7 i 19.8)	0.4	5.4 (1.5 i 13.8)	0.8	10.9 (4.7 i 21.4)
Casnewydd	8.9	495.4 (397.9 i 609.6)	0.9	12.8 (5.9 i 24.3)	1.4	10.9 (5.9 i 18.2)	2.3	19.5 (12.4 i 29.3)
Betsi Cadwaladr	34.5	464.8 (417.0 i 516.5)	6.9	23.3 (18.1 i 29.4)	6.6	12.1 (9.4 i 15.5)	11.1	21.6 (17.8 i 26.0)
Powys	5.0	400.7 (297.4 i 528.3)	1.0	19.2 (9.2 i 35.4)	0.8	7.6 (3.3 i 15.0)	1.8	17.5 (10.3 i 27.6)
Hywel Dda	14.5	385.7 (325.5 i 453.9)	2.9	18.9 (12.6 i 27.1)	2.1	7.1 (4.4 i 10.8)	7.6	26.7 (21.0 i 33.4)
ABM	23.4	421.2 (369.0 i 478.8)	4.7	21.4 (15.7 i 28.5)	3.3	8.2 (5.6 i 11.5)	9.6	25.4 (20.5 i 31.0)
Caerdydd a'r Fro	27.0	493.0 (435.9 i 555.4)	3.1	14.9 (10.1 i 21.1)	3.7	10.0 (7.1 i 13.8)	6.0	17.7 (13.5 i 22.7)
Cwm Taf	15.7	451.6 (383.7 i 528.1)	1.8	13.3 (7.9 i 21.0)	2.3	9.4 (6.0 i 14.1)	4.8	20.8 (15.3 i 27.5)
Aneurin Bevan	29.0	440.2 (391.0 i 494.0)	3.6	13.7 (9.6 i 19.0)	4.4	9.0 (6.5 i 12.0)	8.4	17.9 (14.3 i 22.1)
Cymru	149.1	444.7 (422.4 i 467.9)	24.0	18.1 (15.9 i 20.5)	23.2	9.5 (8.3 i 10.8)	49.3	21.2 (19.4 i 23.2)

Paratowyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). Lle ceir nifer bach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

Marwolaethau o bob achos (ICD-10), nifer a chyfradd fesul 100,000 o unigolion o dan 18 oed, Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, 2002-2011

	Amenedigol (P00-P96)		Anomaledd cynhenid (Q00-Q99)		Allanol (V01-Y98, U509)*		Achosion heb eu diffinio ac anhysbys o farwolaeth (R95-R99)				Arall (pob cod arall)	
							SIDS (R95)		Arall (R96-R99)			
	N	Cyfradd (95% CI)	N	Cyfradd (95% CI)	N	Cyfradd (95% CI)	N	Cyfradd (95% CI)	N	Cyfradd (95% CI)	N	Cyfradd (95% CI)
Ynys Môn	24	16.9 (10.8 i 25.2)	11	7.8 (3.9 i 13.9)	20	14.1 (8.6 i 21.8)	2	1.4 (0.2 i 5.1)	1	0.7 (0.0 i 3.9)	17	12.0 (7.0 i 19.2)
Gwynedd	37	15.4 (10.8 i 21.2)	10	4.2 (2.0 i 7.6)	20	8.3 (5.1 i 12.8)	1	0.4 (0.0 i 2.3)	2	0.8 (0.1 i 3.0)	32	13.3 (9.1 i 18.8)
Conwy	34	15.1 (10.4 i 21.0)	16	7.1 (4.1 i 11.5)	24	10.6 (6.8 i 15.8)	2	0.9 (0.1 i 3.2)	1	0.4 (0.0 i 2.5)	23	10.2 (6.5 i 15.3)
Sir Ddinbych	32	15.9 (10.9 i 22.4)	13	6.5 (3.4 i 11.0)	13	6.5 (3.4 i 11.0)	2	1.0 (0.1 i 3.6)	3	1.5 (0.3 i 4.4)	22	10.9 (6.8 i 16.5)
Sir y Fflint	52	15.6 (11.6 i 20.4)	13	3.9 (2.1 i 6.7)	17	5.1 (3.0 i 8.2)	1	0.3 (0.0 i 1.7)	5	1.5 (0.5 i 3.5)	38	11.4 (8.1 i 15.6)
Wrecsam	44	15.5 (11.2 i 20.8)	13	4.6 (2.4 i 7.8)	11	3.9 (1.9 i 6.9)	0	0.0 (0.0 i 1.3)	3	1.1 (0.2 i 3.1)	32	11.2 (7.7 i 15.9)
Powys	25	9.2 (5.9 i 13.5)	20	7.3 (4.5 i 11.3)	11	4.0 (2.0 i 7.2)	3	1.1 (0.2 i 3.2)	3	1.1 (0.2 i 3.2)	24	8.8 (5.6 i 13.1)
Ceredigion	17	12.7 (7.4 i 20.3)	1	0.7 (0.0 i 4.2)	10	7.5 (3.6 i 13.7)	1	0.7 (0.0 i 4.2)	4	3.0 (0.8 i 7.6)	16	11.9 (6.8 i 19.4)
Sir Benfro	30	11.6 (7.8 i 16.5)	8	3.1 (1.3 i 6.1)	9	3.5 (1.6 i 6.6)	4	1.5 (0.4 i 4.0)	12	4.6 (2.4 i 8.1)	29	11.2 (7.5 i 16.1)
Sir Gâr	40	10.5 (7.5 i 14.3)	17	4.5 (2.6 i 7.2)	30	7.9 (5.3 i 11.3)	3	0.8 (0.2 i 2.3)	10	2.6 (1.3 i 4.8)	30	7.9 (5.3 i 11.3)
Abertawe	61	13.0 (9.9 i 16.7)	19	4.1 (2.4 i 6.3)	25	5.3 (3.4 i 7.9)	9	1.9 (0.9 i 3.6)	14	3.0 (1.6 i 5.0)	48	10.2 (7.5 i 13.6)
Castell-nedd Port Talbot	38	13.0 (9.2 i 17.9)	11	3.8 (1.9 i 6.7)	19	6.5 (3.9 i 10.2)	5	1.7 (0.6 i 4.0)	10	3.4 (1.6 i 6.3)	32	11.0 (7.5 i 15.5)
Pen-y-bont ar Ogwr	46	15.6 (11.4 i 20.8)	9	3.0 (1.4 i 5.8)	31	10.5 (7.1 i 14.9)	1	0.3 (0.0 i 1.9)	8	2.7 (1.2 i 5.3)	24	8.1 (5.2 i 12.1)
Bro Morgannwg	39	13.9 (9.9 i 18.9)	12	4.3 (2.2 i 7.4)	13	4.6 (2.5 i 7.9)	3	1.1 (0.2 i 3.1)	9	3.2 (1.5 i 6.1)	29	10.3 (6.9 i 14.8)
Caerdydd	119	17.2 (14.3 i 20.6)	55	8.0 (6.0 i 10.4)	31	4.5 (3.1 i 6.4)	5	0.7 (0.2 i 1.7)	18	2.6 (1.5 i 4.1)	65	9.4 (7.3 i 12.0)
Rhondda Cynon Taf	63	12.2 (9.4 i 15.6)	24	4.7 (3.0 i 6.9)	31	6.0 (4.1 i 8.5)	8	1.6 (0.7 i 3.1)	17	3.3 (1.9 i 5.3)	57	11.1 (8.4 i 14.3)
Merthyr Tudful	22	17.0 (10.6 i 25.7)	7	5.4 (2.2 i 11.1)	5	3.9 (1.3 i 9.0)	1	0.8 (0.0 i 4.3)	3	2.3 (0.5 i 6.8)	8	6.2 (2.7 i 12.2)
Caerfili	46	11.5 (8.4 i 15.3)	15	3.7 (2.1 i 6.2)	26	6.5 (4.2 i 9.5)	12	3.0 (1.5 i 5.2)	10	2.5 (1.2 i 4.6)	43	10.7 (7.7 i 14.4)
Blaenau Gwent	17	11.1 (6.4 i 17.7)	10	6.5 (3.1 i 12.0)	8	5.2 (2.2 i 10.3)	3	2.0 (0.4 i 5.7)	3	2.0 (0.4 i 5.7)	16	10.4 (6.0 i 16.9)
Torfaen	26	12.6 (8.2 i 18.5)	10	4.8 (2.3 i 8.9)	8	3.9 (1.7 i 7.6)	3	1.5 (0.3 i 4.2)	6	2.9 (1.1 i 6.3)	16	7.8 (4.4 i 12.6)
Sir Fynwy	14	7.3 (4.0 i 12.2)	5	2.6 (0.8 i 6.0)	3	1.6 (0.3 i 4.5)	1	0.5 (0.0 i 2.9)	2	1.0 (0.1 i 3.7)	16	8.3 (4.7 i 13.5)
Casnewydd	50	14.9 (11.1 i 19.7)	18	5.4 (3.2 i 8.5)	10	3.0 (1.4 i 5.5)	7	2.1 (0.8 i 4.3)	9	2.7 (1.2 i 5.1)	41	12.2 (8.8 i 16.6)
Betsi Cadwaladr	223	15.6 (13.6 i 17.8)	76	5.3 (4.2 i 6.7)	105	7.4 (6.0 i 8.9)	8	0.6 (0.2 i 1.1)	15	1.1 (0.6 i 1.7)	164	11.5 (9.8 i 13.4)
Powys	25	9.2 (5.9 i 13.5)	20	7.3 (4.5 i 11.3)	11	4.0 (2.0 i 7.2)	3	1.1 (0.2 i 3.2)	3	1.1 (0.2 i 3.2)	24	8.8 (5.6 i 13.1)
Hywel Dda	87	11.2 (9.0 i 13.9)	26	3.4 (2.2 i 4.9)	49	6.3 (4.7 i 8.4)	8	1.0 (0.4 i 2.0)	26	3.4 (2.2 i 4.9)	75	9.7 (7.6 i 12.2)
ABM	145	13.7 (11.6 i 16.2)	39	3.7 (2.6 i 5.0)	75	7.1 (5.6 i 8.9)	15	1.4 (0.8 i 2.3)	32	3.0 (2.1 i 4.3)	104	9.8 (8.0 i 11.9)
Caerdydd a'r Fro	158	16.3 (13.8 i 19.0)	67	6.9 (5.3 i 8.8)	44	4.5 (3.3 i 6.1)	8	0.8 (0.4 i 1.6)	27	2.8 (1.8 i 4.0)	94	9.7 (7.8 i 11.8)
Cwm Taf	85	13.2 (10.5 i 16.3)	31	4.8 (3.3 i 6.8)	36	5.6 (3.9 i 7.7)	9	1.4 (0.6 i 2.6)	20	3.1 (1.9 i 4.8)	65	10.1 (7.8 i 12.8)
Aneurin Bevan	153	11.9 (10.1 i 13.9)	58	4.5 (3.4 i 5.8)	55	4.3 (3.2 i 5.6)	26	2.0 (1.3 i 3.0)	30	2.3 (1.6 i 3.3)	132	10.2 (8.6 i 12.1)
Cymru	876	13.6 (12.7 i 14.5)	317	4.9 (4.4 i 5.5)	375	5.8 (5.3 i 6.4)	77	1.2 (0.9 i 1.5)	153	2.4 (2.0 i 2.8)	658	10.2 (9.5 i 11.0)

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE a MYE (ONS). N = nifer. SIDS = Syndrom Marwolaeth Sydyn Babanod. *Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006. Lle ceir nifer bach o ddigwyddiadau, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r cyfraddau.

Marwolaethau oherwydd achos allanol, nifer yr unigolion o dan 18 oed, Cymru, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, 2002-2011

	Damweiniol		Hunan-niweidio bwriadol		Ymosodiad (X85-Y09, Y339, U509)*	Bwriad amhendant		Achosion Allanol Eraill (Y40-Y84, Y35-Y36 ac Y85-Y89)	Cyfanswm Allanol Eraill (V01-Y98, U509)*
	Trafnidiaeth damweiniau (V01-V99)	Crogi a Thagu (W75-W76)	Arall (W00-X59 ac eithrio. W75-W76)	Crogi a Thagu (X70)	Arall (X60-X84 ac eithrio X70)	Crogi a Thagu (Y20)	Arall (Y10-Y34 ac eithrio Y20 ac Y339)		
Ynys Môn	6	1	9	2	1	0	0	1	20
Gwynedd	11	2	2	0	0	4	1	0	20
Conwy	9	1	6	4	1	1	1	0	24
Sir Ddinbych	6	1	1	2	0	3	0	0	13
Sir y Fflint	5	0	5	1	0	5	0	0	17
Wrecsam	4	0	3	1	1	2	0	0	11
Powys	10	0	0	0	0	1	0	0	11
Ceredigion	5	0	1	2	0	1	0	0	10
Sir Benfro	6	0	1	2	0	0	0	0	9
Sir Gâr	15	0	9	0	1	3	1	0	30
Abertawe	9	1	7	3	0	5	0	0	25
Castell-nedd Port Talbot	6	4	5	0	2	0	0	0	19
Pen-y-bont ar Ogwr	7	3	6	5	0	5	2	2	31
Bro Morgannwg	7	0	1	3	0	0	0	0	13
Caerdydd	5	0	8	3	2	10	1	0	31
Rhondda Cynon Taf	15	2	4	0	2	2	2	2	31
Merthyr Tudful	1	0	2	0	0	1	1	0	5
Caerffili	8	2	6	1	0	9	0	0	26
Blaenau Gwent	6	0	0	0	0	2	0	0	8
Torfaen	0	0	1	2	0	4	0	1	8
Sir Fynwy	2	1	0	0	0	0	0	0	3
Casnewydd	4	1	2	0	0	1	0	0	10
Betsi Cadwaladr	41	5	26	10	3	15	2	1	105
Powys	10	0	0	0	0	1	0	0	11
Hywel Dda	26	0	11	4	1	4	1	0	49
ABM	22	8	18	8	2	10	4	2	75
Caerdydd a'r Fro	12	0	9	6	2	10	4	0	44
Cwm Taf	16	2	6	0	2	3	3	2	36
Aneurin Bevan	20	4	9	3	0	16	0	1	55
Cymru	147	19	79	31	10	59	14	6	375

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, drwy ddefnyddio ADDE (ONS). *Cod U509 o 2007 a chod Y339 rhwng 2002 a 2006.